

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu  
Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol)  
2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol) 2021.

**Jeremy Miles AS/MS  
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg  
Minister for Education and Welsh Language**

8 Gorffennaf 2021

## **1. Disgrifiad**

- 1.1 Mae Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol) 2021 yn gwneud diwygiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth sylfaenol o ganlyniad i gychwyn darpariaethau o fewn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018").

## **2. Materion o ddiddordeb arbennig i Senedd Cymru**

- 2.1 Ni nodwyd unrhyw faterion penodol.
- 2.2 Mae diwygiadau pellach i Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015, a diwygiadau i is-ddeddfwriaeth arall, yn debygol o gael eu gwneud o ganlyniad i Ddeddf 2018.

## **3. Y cefndir deddfwriaethol**

- 3.1 Mae'r pwerau perthnasol i ddiwygio deddfwriaeth arall drwy offeryn statudol wedi'u cynnwys o dan adrannau 97(1) a (2) o Ddeddf 2018. Mae'r offeryn hwn yn dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd.

## **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

- 4.1 Diben yr Offeryn Statudol hwn yw gwneud y diwygiadau canlyniadol angenrheidiol i ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol er mwyn sicrhau y gall y system ADY ddechrau cael effaith lawn o 1 Medi 2021 mewn perthynas â sut mae Deddf 2018 yn cyfateb i ddeddfiadau eraill.
- 4.2 Mân ddiwygiadau yw'r rhain ac maent yn dechnegol eu natur. Ceir disgrifiad byr o bob diwygiad canlyniadol isod, o dan deitl pob Deddf yr ydym yn ceisio ei diwygio.

## **Deddf Llywodraeth Leol 1974**

- 4.3 Mae Adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1974 yn nodi'r hyn y caiff Comisiynydd Lleol (fel yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol), sy'n aelod o gorff o Gomisiynwyr o'r enw y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yn Lloegr, ymchwilio iddo a'r hyn na chaiff ymchwilio iddo.
- 4.4 Ar hyn o bryd, mae Deddf Llywodraeth Leol 1974 yn darparu y gallai materion sy'n ymwneud ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), na all Tribiwnlys eu hystyried, gael eu hystyried gan y Comisiynydd Lleol. Er mai dim ond i awdurdodau lleol yn Lloegr y mae'r pwerau hyn ar gael, mae'n debygol y bydd rhai plant neu bobl ifanc yn byw yng Nghymru ond yn cael eu haddysg yn Lloegr.

- 4.5 Byddai'r diwygiad arfaethedig yn galluogi Comisiynwyr Lleol (yn Lloegr) i ymchwilio i weithredoedd awdurdod yn Lloegr wrth ddarparu Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) i blentyn o Gymru, yn yr un modd ag y gallant ymchwilio i ddarpariaeth AAA i blant o Loegr.

### **Deddf Addysg 1997**

- 4.6 Mae Rhan V o Ddeddf Addysg 1997 yn ymwneud â goruchwyllo'r cwricwlwm ar gyfer ysgolion a chymwysterau allanol mewn perthynas â Chymru. Mae adran 32 yn ymwneud â swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â hyrwyddo addysg a hyfforddiant a hyrwyddo ansawdd a chydlynid, ac y byddant yn rhoi sylw i ofynion rhesymol personau a chanddynt anawsterau dysgu.
- 4.7 Bydd y diwygiadau arfaethedig yn diweddarau'r diffiniad o "learning difficulties" a ddefnyddir yn adran 32 i sicrhau bod y swyddogaethau hyn yn berthnasol i blant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

### **Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001**

- 4.8 Yn Atodlen 8 (Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) o'r Ddeddf uchod, bydd paragraff 12 yn cael ei hepgor. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw terminoleg hen ffasiwn ("special educational needs") yn cael ei defnyddio mwyach yn Neddf Addysg 1996.

### **Deddf Addysg 2002**

- 4.9 Mae adran 1(3)(7) yn cynnwys "the proprietor of any special school that is not maintained by a local authority but is for the time being approved by the Secretary of State or the National Assembly for Wales under section 342 of the Education Act 1996" fel corff cymwys. Bydd y diwygiad yn hepgor y cyfeiriad i "National Assembly for Wales" er mwyn sicrhau nad yw terminoleg hen ffasiwn yn cael ei defnyddio mwyach.
- 4.10 Mae adran 2(5) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru lacio neu eithrio unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 am hyd at 3 blynedd. Fodd bynnag, caiff Gweinidogion Cymru wrthod cais neu orchymyn o'r fath os yw'n debygol o gael effaith ar addysg plant ag anghenion addysgol arbennig. Bydd y diwygiadau'n diweddarau'r derminoleg er mwyn sicrhau bod y pwerau'n briodol ar gyfer y system ADY.

## **Deddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002**

- 4.11 Mae Adran 36 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002 yn datgymhwyso dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau lleol (o dan Ddeddf Addysg 1996) i gyfrannu at ddatblygiad ysbrydol, moesol, meddyliol a chorfforol y gymuned drwy sicrhau'r addysg gynradd ac addysg uwchradd effeithlon honno mewn cysylltiad â phersonau sy'n byw mewn canolfan llety.
- 4.12 Nid yw'r adran hon wedi'i chychwyn eto ac nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU i'w chychwyn. Fodd bynnag, os caiff yr adran ei chychwyn yn y dyfodol, bydd angen diwygio'r derminoleg mewn sawl cyfeiriad drwy'r adran gyfan, megis hepgor "special educational needs" a mewnosod "additional learning needs" yn ei le. Bydd y diwygiadau canlyniadol a gynigir yn diweddarau'r derminoleg berthnasol o dan yr adran rhag ofn i'r darpariaethau hynny gael eu cychwyn yn ddiweddarach.

## **Deddf Addysg 2005**

- 4.13 Mae adran 28 o Ddeddf Addysg 2005 yn ymwneud â'r ddyletswydd i drefnu arolygiadau rheolaidd o ysgolion penodol. Er mwyn adlewyrchu newidiadau a wnaed i'r system addysg yng Nghymru, bydd y diwygiad yn hepgor "special schools which are not community or foundation special schools but are for the time being approved by the Assembly under section 342 of the Education Act 1996" o'r rhestr o ysgolion y gellir eu harolygu.

## **Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006**

- 4.14 Mae adran 16 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn ymwneud ag ymgynghoriadau ar gynigion i gau ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol. Mae diwygiadau yn ofynnol i ddiweddarau'r cyfeiriad at awdurdod lleol sy'n cynnal "statement of special educational needs" i un sydd hefyd yn cynnal "individual development plan".
- 4.15 Mae adran 88 yn ymwneud â chyfrifoldeb corff llywodraethu o ran disgyblaeth; bod polisiau wedi'u llunio i hyrwyddo ymddygiad a disgyblaeth dda ar ran ei disgyblion yn cael eu dilyn yn yr ysgol. Yn yr adran hon, mae angen diwygiadau i hepgor y geiriau "or the Assembly" wrth restru "relevant schools" neu "governing bodies" a gymeradwyir gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Cynulliad o dan adran 342 o Ddeddf Addysg 1996.

## **Deddf Cymwysterau Cymru 2015**

- 4.16 Mae adran 57 (Dehongli cyffredinol a mynegai o ymadroddion wedi eu diffinio) angen diwygio ei therminoleg i gynnwys "anghenion dysgu ychwanegol" wrth ddiffinio "anhawster dysgu" mewn perthynas â Deddf Cymwysterau Cymru 2015.

## **Deddf Cymru 2017**

- 4.17 Mae adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 yn ymwneud â thriwilysoedd Cymru. Mae angen diwygiad i ychwanegu “the Education Tribunal for Wales” at y rhestr o driwilysoedd yng Nghymru yn lle “the Special Educational Needs Tribunal for Wales”.
- 4.18 Hefyd, mae adran 62 (Cross-deployment of members of the Welsh tribunals) angen ei diwygio i hepgor “Special Educational Needs Tribunal for Wales” o'r adran.

## **Deddf y Coronafeirws 2020**

- 4.19 Mae Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 angen ei diwygio i fewnosod Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (darpariaethau sy'n ymwneud â chynlluniau datblygu unigol) i alluogi datgymhwyso neu addasu'r system ADY dros dro pe byddai'r pandemig sy'n parhau yn gorfodi cyfnod arall o gyfyngiadau symud.

## **5. Ymgynghori**

- 5.1 Nid oes ymgynghoriad ffurfiol wedi'i gynnal gan mai dim ond diwygiadau technegol canlyniadol y mae'r rheoliadau'n eu gwneud.

## **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

- 6.1 Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r rheoliadau diwygio canlyniadol hyn gan eu bod yn gwneud diwygiadau technegol i statud ac nad ydynt yn gosod nac yn lleihau costau i fusnesau, elusennau na chyrrff gwirfoddol nac i'r sector cyhoeddus.